



Map Stori Antur 'Return Journey'



Mae llawer ohonom wedi bod yn ailymweld â mannau cyfarwydd dros y flwyddyn ddiwethaf, boed wrth ymweld â'n parc lleol, cerdded ar hyd strydoedd cyfarwydd neu fynd am dro o gwmpas ein gerddi cefn. Yn stori Dylan Thomas 'Return Journey', a ysgrifennodd yn wreiddiol ar gyfer BBC Radio, mae Dylan yn dychwelyd i Gymru ac i Abertawe i ymweld â mannau cyfarwydd o ddyddiau ei ieuenctid.

Difrodwyd Abertawe'n wael gan fomiau yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Ar 19 Chwefror 1941, dechreuodd tair noson o gyrchoedd bomio a achosodd ddinistr i'r dref, a adwaenid yn ddiweddarach fel y 'Blitz Tair Noson'. Felly fel y gallwch ddychmygu, roedd yr Abertawe yr oedd Dylan yn ei chofio, a sut edrychai'r dref ar ôl y Blitz, yn wahanol iawn!



© Cyngor Abertawe | Swansea Council

Sgript wreiddiol 'Return Journey' sy'n cael ei harddangos yng Nghanolfan Dylan Thomas.

Mae'r gweithgaredd hwn yn ymwneud ag archwilio'r anghyffredin yn ein teithiau pob dydd! Fel Dylan, byddwn yn dychwelyd i leoedd rydym wedi ymweld â nhw o'r blaen ac yn sylwi ar newidiadau. Byddwn yn eu tynnu ar ein map ac yna'n creu ein straeon antur ein hunain!

Creu map stori antur:



Bydd angen y pethau hyn arnoch i greu eich map


- Hen amlen bapur - po fwyaf yr amlen, mwyaf y map!
- Rhywbeth i dynnu llun neu ysgrifennu gydag e'

Eitemau opsiynol

- Pensiliau neu binnau lliw
- Dyfrlliwiau
- Pin du tenau
- Bag te wedi'i ddefnyddio
- Tâp neu lud - bydd angen hyn arnoch os hoffech ludo dwy amlen gyda'i gilydd i greu map sy'n fwy.

Cam 1: paratoi'ch papur

I greu eich map, yn gyntaf mae angen agor hen amlen bapur. Os hoffech wneud i'ch papur edrych fel hen fap, gallwch baentio'ch papur gyda bag te wedi'i ddefnyddio. Gadewch i'ch map sychu cyn symud ymlaen i gam 2.



Cam 2: cynllunio'ch llwybr


Ceisiwch beidio â gwneud eich llwybr yn rhy anodd ar gyfer eich map cyntaf. Ar ein henghraifft ni yma, rydym wedi tynnu llun y llwybr rydyn ni'n ei ddilyn ar ein tro dyddiol i'r parc!

Mae'n syniad da tynnu llun eich llwybr â phensil yn gyntaf ac yna mynd drosto â phin, pensil neu greonau pan fyddwch yn hapus 'dag ef.

Cam 3: ychwanegu lleoedd o ddiddordeb a nodweddion

Nesaf bydd angen i chi ychwanegu rhai pethau y byddwch chi'n eu gweld ar eich taith. Tynnwch lun neu ysgrifennwch enwau'r pethau diddorol rydych chi'n eu gweld ar eich taith, ac anwybyddwch y pethau nad ydyn nhw mor ddiddorol!

Dyma'r hyn rydyn ni wedi ei gynnwys ar ein map:



- ◆ Fy nhŷ
- ◆ Mae cath hapus
- ◆ Y golchdy
- ◆ Cerflun rhyfedd !
- ◆ Gardd llawn cennin Pedr
- ◆ Mae ci swnllyd yn byw yma!
- ◆ Y parc


Sylwch ar y pethau sy'n newid yn ystod eich teithiau cyfarwydd dros ychydig ddyddiau neu wythnosau. Efallai bod coeden yr oedd ei brigau'n noeth o'r blaen yn llawn blodau pinc erbyn hyn, neu efallai bod pwll newydd yn y parc? Neu gallai fod llew cerrig wedi ymddangos yng ngardd rhywun!

Bydd rhai pethau nad ydynt wedi newid hefyd; efallai y byddwch yn cerdded heibio cath sy'n cysgu mewn ffenestr bob dydd, neu dŷ â drws blaen melyn.

Cofiwch, pan fyddwch yn darlunio'ch map, does dim angen i'r pethau hyn edrych fel y maen nhw mewn bywyd go iawn - gallwch ddefnyddio symbolau yn lle. Dyma rai enghreifftiau:



Cam 4: Addurno'ch map



Tynnwch lun cwmpawd



Tynnwch lun anghenfil morol



Rhwygwch ymylon eich map

- ◆ Weithiau mae pobl sy'n creu mapiau'n cynnwys cwmpawd yn y gornel dde uchaf i helpu'r bobl sy'n defnyddio'r map i ddod o hyd i'w ffordd
- ◆ Mae'r rhan fwyaf o fapiau'n edrych yn well os oes anghenfil morol arnynt.
- ◆ Gallwch dorri neu rwygo ymylon eich map i wneud iddo edrych fel ei fod wedi cael sawl antur!

Ar ôl creu eich map, gallwch ei ddefnyddio i greu straeon antur gwych!

Os ydych chi'n creu map neu'n ysgrifennu stori, byddem yn dwlu ar eu gweld! Gallwch chi eu rhannu ar Facebook: @CanolfanDylanThomas, ar Twitter: @CDTAbertawe, neu e-bostiwch ni yn nicola.kelly@abertawe.gov.uk

Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r gweithgaredd hwn. I weld rhagor o weithgareddau a ysbryd-olwyd gan Dylan Thomas a'n casgliadau, ewch i www.dylanthomas.com